



HM Treasury



Swyddfa Cymru

Grymuso a chyfrifoldeb:

datganoli pŵer ariannol i Gymru



HM Treasury



Swyddfa Cymru

Grymuso a chyfrifoldeb: datganoli pŵer ariannol i Gymru

© Hawlfraint y Goron 2013

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y drwydded hon yn <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu drwy anfon neges e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi bod yr hawlfraint ar unrhyw wybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen cael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn, dylech eu hanfon atom ni yn public.enquiries@hm-treasury.gov.uk.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.gov.uk

ISBN 978-1-909790-49-0

PU1597

Rhagair

Pan gafodd y glymblaid ei ffurfio yn 2010, roedd ein Rhaglen Lywodraethu yn datgan tri ymrwymiad penodol ar gyfer Cymru: sefydlu proses debyg i Gomisiwn Calman yn yr Alban i Gynulliad Cymru; cyflwyno refferendwm ar bwerau datganoledig pellach i Gymru a datblygu'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar gyfer Tai. Rydym wedi cyflawni'r tri ymrwymiad hyn.

Yn dilyn refferendwm y Cynulliad, sefydlwyd y Comisiwn annibynnol ar Ddatganoli yng Nghymru ('Comisiwn Silk') yn 2011, er mwyn archwilio'r trefniadau ariannol a chyfansoddiadol yng Nghymru, ac awgrymu ffyrdd y gellir eu gwella.

Roedd y Comisiwn yn holi ym mis Tachwedd 2012, a fyddai'n bosibl gwella atebolrwydd ariannol y sefydliadau datganoledig yng Nghymru – Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru – drwy ddatganoli pwerau cyllidol (treth a benthyca). Mae angen atebolrwydd ariannol cadarnach ar Gynulliad Cymru i bobl Cymru, ond gan sicrhau yr un pryd eu bod yn cynnal y buddiannau o ddiogelwch a sefydlogrwydd a geir o ganlyniad i rannu adnoddau fel rhan o'r Deyrnas Unedig.


Cyflwynwyd 13 o argymhellion gan Gomisiwn Silk, i wella atebolrwydd ariannol gan barhau'n gyson ag amcanion cyllidol y Deyrnas Unedig. Rydym yn ddiolchgar i Paul Silk ac aelodau'r Comisiwn am eu gwaith caled a'u hymroddiad wrth gynhyrchu adroddiad mor drylwyr.

Yn dilyn y cyhoeddiadau a wnaed gan Brif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth y DU ar 1 Tachwedd, cyflwynir ymateb manwl Llywodraeth y DU yn y ddogfen hon, ac mae'n adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd gan y Comisiwn. Rydym yn cytuno'n llwyr â phrif argymhelliad y Comisiwn: mai'r model ariannu o grant bloc a datganoli rhai trethi yw'r model gorau ar gyfer cyflawni egwyddorion cyllidol cadarn ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac y dylai rhan o'i chyllideb gael ei hariannu drwy drethi sydd wedi'u datganoli a'u rheoli gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynlluniau a gyflwynir gennym yn y ddogfen hon yn datblygu'r egwyddor hon.

Mae'r Comisiwn yn edrych yn awr ar sut y gellir addasu ffiniau datganoledig Cymru er mwyn gwasanaethu pobl Cymru'n well, ac edrychwn ymlaen at ddarllen canfyddiadau'r Comisiwn ar hynny yng ngwanwyn y flwyddyn nesaf.



Y Gwir Anrhydeddus David Jones AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru



Y Gwir Anrhydeddus Danny Alexander AS
Prif Ysgrifennydd y Trysorlys

Cynnwys

| | | Tudalen |
|-----------|---|---------|
| Pennod 1 | Cyflwyniad | 3 |
| Pennod 2 | Cynlluniau Llywodraeth y DU | 4 |
| Atodiad A | Ymateb i bob argymhelliad | 11 |
| Atodiad B | Ymgynghoriad treth tir y dreth stamp - crynodeb o'r ymatebion | 21 |

1

Cyflwyniad

1.1 Sefydlwyd y Comisiwn annibynnol ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn ‘Silk’) gan Lywodraeth y DU ym mis Hydref 2011, er mwyn adolygu’r trefniadau ariannol a chyfansoddiadol presennol yng Nghymru. Paul Silk yw cadeirydd y Comisiwn, ac mae’n cynnwys cynrychiolwyr o’r pedair plaid wleidyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) yn ogystal ag aelodau annibynnol.

1.2 Mae’r Comisiwn yn cynnal ei waith mewn dwy ran. Yn Rhan 1 ei gylch gwaith, bu’r Comisiwn yn edrych ar sut y gellir gwella atebolrwydd ariannol y Cynulliad a Llywodraeth Cymru, a chynhaliwyd adolygiad o’r ddadl dros ddatganoli pwerau cyllidol. Ym mis Tachwedd 2012, cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad ar ei ganfyddiadau ar gyfer Rhan 1. Roedd yr adroddiad unfrydol yn cyflwyno 33 o argymhellion i ddatganoli pecyn o bwerau trethu a benthycu i’r Cynulliad a Gweinidogion Cymru.

1.3 Bu Llywodraeth y DU yn asesu goblygiadau’r argymhellion hyn mewn cryn fanylder ac, mewn ymateb i’r pryderon a fynegwyd gan fusnesau, bu’n ymgynghori ymhellach yn ystod yr haf ar effeithiau posibl datganoli’r dreth tirlenwi a threth tir y dreth stamp i Gymru. Ar 1 Tachwedd, cyhoeddodd Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth y DU bod Llywodraeth y DU yn derbyn prif argymhellion y Comisiwn, yn cynnwys rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru fenthycu buddsoddiad cyfalaf, datganoli’r dreth tirlenwi a threth tir y dreth stamp i Gymru, a chynnal refferendwm er mwyn i bobl Cymru benderfynu a ddylid datganoli’r cyfrifoldeb dros rywfaint o’u treth incwm.

1.4 Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno ymateb Llywodraeth y DU i bob un o’r 33 o argymhellion, yn cynnwys y rhai sydd eisoes wedi’u cyhoeddi gan Brif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth y DU. Mae Pennod 2 yn esbonio ymateb Llywodraeth y DU ac yn cyflwyno ein cynlluniau. Mae Atodiad A yn cyflwyno ymateb penodol Llywodraeth y DU i bob argymhelliad ac mae Atodiad B yn crynhoi’r ymatebion i’r ymgynghoriad ar effeithiau posibl datganoli treth tir y dreth stamp i Gynulliad Cymru.

1.5 Mae’r Comisiwn yn gweithio yn awr ar Ran II ei gylch gwaith, ystyried pwerau’r Cynulliad ac argymhell a oes angen gwneud unrhyw addasiadau i’r ffiniau datganoli. Bydd yn cyflwyno adroddiad ar Ran II yng ngwanwyn 2014.

2

Cynlluniau Llywodraeth y DU

Y trefniadau ariannu presennol

2.1 Mae'r rhan fwyaf o gyllideb y Cynulliad a Llywodraeth Cymru'n cael ei hariannu ar hyn o bryd gan grant bloc sy'n cael ei gymeradwyo gan Senedd y DU. Mae refeniw treth o bob rhan o'r DU (yn cynnwys o Gymru) yn cael ei gronni'n ganolog, gyda chyfran yn cael ei hailddosbarthu i'r Cynulliad. Gwneir newidiadau i faint y grant bloc drwy gymhwyso fformiwla Barnett, sy'n dyrannu cyfran o'r newid i wariant arfaethedig y Cynulliad, ar sail poblogaeth, mewn gwasanaethau cymaradwy yn Lloegr.

2.2 Er bod y Llywodraeth yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch fformiwla Barnett, mae gan y system bresennol nifer o gryfderau. Mae adnoddau a risgiau yn cael eu rhannu ar draws y DU gyfan, sy'n sicrhau bod y Cynulliad yn derbyn lefelau sefydlog o gyllid i gyflenwi'r amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus datganoledig y mae'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt. Mae'r system hefyd yn syml, yn dryloyw ac yn effeithlon, sy'n ofynion angenrheidiol ar gyfer unrhyw system ariannu.

2.3 Fodd bynnag, o dan y system hon, cyfrifoldeb (a phwerau) cyfyngedig iawn sydd gan y Cynulliad dros godi'r arian y mae'n ei wario. Er bod Gweinidogion Cymru ac Aelodau'r Cynulliad yn atebol i etholwyr Cymru ynglŷn â'r ffordd mae'n gwario eu cyllideb, nid ydynt yn atebol am godi refeniw ac ni allant bennu'r lefelau treth a gwariant cyffredinol yng Nghymru. Mae'r sefyllfa bresennol yn golygu mai'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig (busnes) yw'r unig drethi y mae gan y Cynulliad a Gweinidogion Cymru unrhyw ddylanwad drostynt.

2.4 Roedd y Rhaglen Lywodraethu yn gwneud ymrwymiad i sefydlu proses debyg i Gomisiwn Calman yn yr Alban i'r Cynulliad. Felly, sefydlodd Llywodraeth y DU y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn 'Silk') yn 2011, i adolygu'r ddatl dros ddatganoli pwerau cyllidol i'r Cynulliad ac ystyried sut i gynyddu ei atebolrwydd ariannol.

Cylch gwaith ac argymhellion y Comisiwn

2.5 Mae'r Comisiwn, o dan gadeiryddiaeth Paul Silk, wedi ystyried y cwestiwn o atebolrwydd ariannol mewn cryn fanylder. Mae'n cydnabod bod y system bresennol o drosglwyddiadau cyllidol yn bwysig ar gyfer llwyddiant economaidd yr Undeb ac y dylid ei chynnal, ond daeth i'r casgliad nad yw'r trefniadau cyllido presennol yn cyflawni gofynion democratiaeth aeddfed ac maent yn anghyson mewn cyd-destun rhyngwladol. Felly, roedd y Comisiwn yn argymhell trefniadau cyllido i Gymru a oedd yn rhoi mwy o bwerau rheoli trethi (a benthycu) i'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru, gan gynyddu atebolrwydd ariannol y sefydliadau datganoledig o fewn y fframwaith o Deyrnas Unedig gadarn.

2.6 Mae Llywodraeth y DU yn cytuno'n gryf bod y DU yn elwa'n aruthrol o gael undeb economaidd a chyllidol integredig. Felly, mae'n rhaid i unrhyw newidiadau i'r ffordd mae'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru'n cael eu hariannu fod yn gyson â chynnal lefelau integredig y system hon. Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn gyfrifol am y polisi macro-economaidd ac mae'n rhaid i system dreth unedig y DU barhau i fod yn gwbl integredig a chydlynus, er mwyn i'r system barhau i weithio'n effeithiol i fusnesau ac unigolion a sicrhau

nad yw'n amharu ar y broses o fasnachu nwyddau, gwasanaethau a chyfalaf rhwng Cymru a gweddill y DU.

2.7 Mae argymhellion y Comisiwn ac ymateb Llywodraeth y DU wedi'u cyflwyno'n llawn yn Atodiad A. Y cynnig sylfaenol yw y dylid ail-gydbwyso cyllid y Cynulliad, gyda chyfran uwch o gyllid yn cael ei chynhyrchu o drethi y mae'n gyfrifol am eu codi. Roedd y Comisiwn hefyd yn argymhell y dylai fod gan Lywodraeth Cymru bwerau benthyca ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf. Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai trefniant o'r fath yn cynnal rhai o fuddiannau presennol y system trosglwyddo cyllid, gan gynyddu annibyniaeth ac atebolrwydd ariannol y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yr un pryd.

2.8 Prif argymhellion y Comisiwn ar gyfer cyflawni hyn yw:

- dylid rhannu'r sylfaen drethi rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Dylid didynnu 10c cychwynnol o bob un o'r prif gyfraddau treth incwm yng Nghymru, gyda Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bennu cyfradd ar gyfer Cymru ar gyfer pob band. Dylid cyflwyno gostyngiad yn y grant bloc yr un pryd, gan ddefnyddio'r dull didynnu wedi'u mynegrifo a gynigiwyd gan Gomisiwn Holtham;
- dylai'r cynnig i ddatganoli treth incwm fod yn destun refferendwm yng Nghymru;
- dylid datganoli treth tir y dreth stamp, treth tirlenwi, toll teithwyr awyr teithiau awyr hir a'r ardoll agregau, ochr yn ochr â gostyngiad sefydlog i'r grant bloc;
- dylai Cynulliad Cymru gael y pŵer i ddeddfu i gyflwyno trethi newydd yng Nghymru, yn unol â chytundeb Llywodraeth y DU; a
- dylai Gweinidogion Cymru allu benthyca er mwyn cynyddu buddsoddiadau cyfalaf, o fewn uchafswm cyffredinol.

2.9 Roedd y Comisiwn hefyd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru dderbyn dulliau newydd i reoli'r pwerau treth newydd hyn, ac y dylid gwneud gwelliannau i wybodaeth ariannol a threfniadau sefydliadol.

Cynlluniau Llywodraeth y DU

2.10 Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi ystyriaeth ofalus i argymhellion y Comisiwn i roi pwerau ychwanegol i sefydliadau datganoledig yng Nghymru – y Cynulliad a Llywodraeth Cymru – a chynyddu eu hatebolrwydd ariannol.

Pwerau treth

Treth incwm

2.11 Mae Llywodraeth y DU yn derbyn y byddai rhannu'r sylfaen treth incwm yn cynyddu atebolrwydd y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn sylweddol, oherwydd mai treth incwm sy'n cyfrannu'r gyfran fwyaf o refeniw treth yng Nghymru, ac y byddai'n darparu llif gyllid gymharol sefydlog. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn cytuno â'r Comisiwn y dylid cynnal refferendwm yng Nghymru ar ddatganoli treth incwm (gweler paragraff 2.14 dros y dudalen).

2.12 Roedd y Comisiwn yn argymhell y dylid didynnu 10c cychwynnol o bob un o brif ardrethi'r DU yng Nghymru, gyda Chynulliad Cymru yn gallu pennu cyfraddau unigol anghyfyngedig ar gyfer pob band. Er bod y Comisiwn yn amlygu rhai o fuddiannau gallu pennu ardrethi yn annibynnol i Lywodraeth Cymru, mae Llywodraeth y DU yn pryderu y gallai hyn ystumio'r strwythur (neu'r gallu) i ailddosbarthu'r system dreth incwm ac y gallai fod yn niweidiol i'r DU gyfan. Er bod ansicrwydd ynglŷn â'r effeithiau, gan y byddai hyn yn gyflwyniad gwbl newydd yn y DU, gallai'r hyblygrwydd i bennu ardrethi annibynnol arwain at ymatebion arwyddocaol, megis mewnfudo, sy'n lleihau refeniw mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'r risg hon yn

arbennig o uchel yn uwch i fyny yn y dosbarthiad incwm – nododd y Comisiwn bod unigolion sydd ag incwm uwch yn ymatebol iawn i gyfraddau trethi – ac mae'r nifer fawr o unigolion sy'n byw'n agos i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn sicr o ddwysáu hynny.

2.13 Mae Llywodraeth y DU yn credu y gellir cyflawni'r amcan allweddol o gynyddu atebolrwydd i Gynulliad Cymru a Llywodraeth Cymru drwy ganiatáu'r pŵer iddynt amrywio cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol y dreth incwm (sy'n 20 y cant, 40 y cant a 45 y cant ar hyn o bryd, yn y drefn honno) i fyny neu i lawr ar y cyd. Byddai hyn hefyd yn cynnal strwythur ailddosbarthol y system dreth incwm ar lefel y DU.

2.14 Mae Llywodraeth y DU hefyd yn cytuno y dylai pobl Cymru allu dewis a ddylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am elfen o'r dreth incwm yng Nghymru, ac y dylai'r Cynulliad allu cynnal refferendwm yng Nghymru i benderfynu ar y mater. Credwn ei bod yn bwysig bod y Cynulliad yn gallu penderfynu pryd y dylid cynnal refferendwm, a chytuno gyda'r Comisiwn bod y model yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi gweithio'n dda yn nhermau'r refferendwm ar bwerau deddfu.

2.15 Ar sail hyn, ac yn amodol ar refferendwm, mae Llywodraeth y DU yn cynnig datganoli pwerau cyfatebol i'r rhai sydd wedi'u deddfu yn Neddf yr Alban 2012. Byddai hyn yn golygu na fyddai 10 pwynt canran o bob cyfradd dreth yn y DU yn ddyledus i lywodraeth y DU. Yna, byddai Llywodraeth y DU yn gallu pennu "Cyfradd i Gymru", a fyddai'n disodli hyn, gyda refeniw yn ddyledus i Lywodraeth Cymru ond a fyddai'n parhau i gael ei chasglu gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Pe byddai cyfradd o 10 y cant i Gymru, byddai'r cyfraddau treth incwm cyffredinol y byddai trethdalwyr yng Nghymru yn eu talu yn parhau i fod yn 20 y cant (y gyfradd sylfaenol), 40 y cant (y gyfradd uwch) a 45 y cant (y gyfradd ychwanegol). Fodd bynnag, pe byddai Llywodraeth Cymru'n pennu cyfradd o 11 y cant i Gymru, byddai'r cyfraddau cyffredinol hyn yn cynyddu i 21 y cant, 41 y cant a 46 y cant. Byddai Cyfradd i Gymru yn berthnasol i'r holl incwm sy'n drethadwy, ac eithrio pan fydd hyn wedi'i greu o gynilion neu ddifidendau. Er mwyn adlewyrchu'r pwerau datganoledig i godi trethi, byddai gostyngiad cyfatebol yn y grant bloc a roddir i'r Cynulliad.

2.16 Roedd y Comisiwn yn argymhell y dylai'r broses o ddatganoli treth incwm "fod yn amodol ar ddatrys y mater ariannu teg mewn ffordd y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno arni". Ym mis Hydref 2012, sefydlwyd proses gan y ddwy lywodraeth i adolygu lefelau cymharol cyllid ar gyfer Cymru a Lloegr, cyn pob adolygiad o wariant ac, os rhagwelir y bydd cydgyfeirio yn parhau, y dylid trafod yr opsiynau i fynd i'r afael â'r mater mewn ffordd deg a fforddiadwy. Mae'r trefniadau cadarn hyn ar gyfer monitro lefelau ariannu yn darparu sail gadarn ar gyfer datganoli treth incwm, yn amodol ar refferendwm.

Trethi llai o ran refeniw

2.17 Bydd gallu'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru i reoli trethi datganoledig llai yn ddibynnol ar sefydlu fframwaith sy'n galluogi ymreolaeth ddigonol mewn materion treth at ddibenion cymorth gwladwriaethol. Mae Deddf yr Alban 2012 yn darparu cysail defnyddiol yma.

2.18 Mae Llywodraeth y DU yn derbyn argymhelliad y Comisiwn y dylid datganoli treth tir y dreth stamp a'r dreth tirlenwi i Gynulliad Cymru, am eu bod yn berthnasol i Gymru, gyda didyniad cyfatebol i'r grant bloc. Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i gadw golwg ar ddatganoli'r ardoll agregau, gyda'r bwriad o ddatganoli hyn yn y dyfodol, ar ôl datrys materion cymorth gwladwriaethol, ond nid yw'n argyhoeddedig y dylid datganoli toll teithwyr awyr i Gymru, o ystyried effeithiau posibl hyn ar draws y DU gyfan.

2.19 Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatganoli ardrethi annomestig (busnes) yn llwyr. Er mai Gweinidogion Cymru sy'n pennu'r ardrethi hyn yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'r trefniadau presennol yn golygu nad yw'r refeniw sy'n cael ei gynhyrchu yn cael effaith uniongyrchol ar lefel y cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

2.20 Mae Llywodraeth y DU hefyd yn derbyn argymhelliad y Pwyllgor y dylai'r Cynulliad dderbyn y pŵer i gyflwyno trethi penodol, yn unol â chytundeb achosion unigol Llywodraeth y DU.

Rheoli pwerau treth

2.21 Wrth i'r pwerau trethu newydd gael eu cyflwyno, bydd angen dulliau newydd ar Lywodraeth Cymru i reoli ansefydlogrwydd referniw treth. Felly, bydd Llywodraeth y DU yn rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru gynilo referniw dros ben mewn cronfa arian parod wrth gefn, i'w defnyddio yn y dyfodol, pan fydd referniw yn is na'r hyn a ragwelwyd. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn sefydlu pwerau benthycia tymor byr, a fydd yn rhoi opsiwn arall i Lywodraeth Cymru os bydd referniw yn is na'r hyn a ragwelwyd ac os na fydd swm digonol o arian yn y gronfa arian parod wrth gefn.

Benthycia cyfalaf

2.22 Mae Llywodraeth y DU wedi derbyn, mewn egwyddor¹, y ddadl y dylai Llywodraeth Cymru gael pwerau benthycia cyfalaf er mwyn buddsoddi yn seilwaith Cymru, yn amodol ar argaeledd llif referniw annibynnol a phriodol i gynnal costau benthycia.

2.23 Byddai cynlluniau Llywodraeth y DU i ddatganoli treth, sy'n cael eu cyflwyno uchod, yn darparu llif referniw annibynnol o'r fath, a fyddai'n cefnogi lefelau cymesur o fenthyciadau cyfalaf a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i fuddsoddi yn seilwaith Cymru; er enghraifft, uwchraddio llwybrau allweddol ar y rhwydwaith ffyrdd traws-Ewropeaidd – yr M4 yn Ne Cymru a Gwibffordd Gogledd Cymru. Felly, bydd union lefelau'r benthyciadau cyfalaf yn dibynnu ar ganlyniad y refferendwm ar dreth incwm, a byddant yn cael eu trafod gyda Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r trafodaethau ar y trefniadau manwl ar gyfer cyflwyno'r trethi datganoledig.

2.24 Hefyd, mae Llywodraeth y DU wedi datgan yn y gorffennol ei bod yn cefnogi'r cynlluniau i wella'r M4 yn Ne Cymru. Felly, bydd Llywodraeth y DU yn darparu mynediad cynnar i Lywodraeth Cymru i bwerau cyfyngedig i fenthycia cyfalaf cyn cyflwyno'r pwerau trethu. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddechrau gweithio ar y prosiect pwysig hwn cyn gynted â phosibl².

Trefniadau sefydliadol a llywodraethu

2.25 Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod yr angen i sicrhau bod y trefniadau sefydliadol a llywodraethu yn parhau i fod yn briodol, yn dilyn y newidiadau i'r setliad datganoli. Y prif feysydd y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu atgyfnerthu'r trefniadau presennol yw:

- Bydd Llywodraeth y DU yn gwneud cais ffurfiol i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, i ragweld y referniw a fyddai'n cael ei godi drwy drethi sy'n cael eu datganoli i Gynulliad Cymru;
- Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno memorandwm cyd-ddealltwriaeth addas a fydd yn ategu'r gwaith o gyflwyno a gweithredu'r pwerau newydd; a
- Yn unol â'i rhaglen dryloywder, mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i wella'r wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno i'r cyhoedd i ddeall a chynyddu atebolrwydd.

¹ Cyd-ddatganiad gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn <https://www.gov.uk/government/news/governments-reach-new-agreement-on-welsh-funding>.

² Mae gwybodaeth ar gael am y cynlluniau ar wneud gwelliannau i'r M4 ar gael yn: <http://wales.gov.uk/consultations/transport/m4cor/?lang=cy>

Gweithredu

2.26 Mae'r cynlluniau hyn yn galw am ddeddfwriaeth Seneddol. Mae Llywodraeth y DU yn rhagweld y bydd yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth angenrheidiol cyn gynted ag y bydd amser seneddol yn caniatáu, gyda'r gobaith o gyflwyno deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd hon. Byddwn yn cyhoeddi Mesur Cymru drafft at ddibenion craffu, cyn cyflwyno deddfwriaeth yn sesiwn bresennol y Senedd, a fydd yn cynnwys darpariaethau i weithredu'r rhannau hynny o'r pecyn (yn cynnwys pwerau treth a benthyca) sy'n galw am ddeddfwriaeth sylfaenol. Bydd yn bosibl gweithredu rhai o'r argymhellion rydym yn eu datblygu heb ddeddfwriaeth, a byddwn yn rhoi ystyriaeth drylwyr i'r amserlen briodol ar gyfer gweithredu pob un.

2.27 Bydd Mesur Cymru drafft yn cynnwys darpariaeth i gynnal refferendwm ar ddatganoli treth incwm, yn unol ag argymhelliad Comisiwn Silk. Bydd y darpariaethau yn cael eu llunio yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a oedd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer refferendwm 2011 ar bwerau deddfu'r Cynulliad. Y Cynulliad fydd yn dewis pryd i gynnal refferendwm.

2.28 Cyn cyflwyno unrhyw un o'r cynigion uchod, bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori â'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn cadarnhau bod ei chynlluniau manwl yn cydymffurfio â rheolau'r UE ar gymorth gwladwriaethol. Mae'r system cymorth gwladwriaethol yn pennu meini prawf caeth ar y trethi y gellir eu datganoli o fewn Aelod-wladwriaethau'r UE. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn hyderus bod ei chynigion yn cydymffurfio â'r meini prawf hyn, ac mae'n nodi bod y datganoliad cyllidol yn Neddf yr Alban 2012 yn cyflwyno cysail pwysig ar hyn.

2.29 Mae Llywodraeth y DU yn croesawu ymrwymadau Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad i ddatblygu argymhellion y Comisiwn sy'n berthnasol iddynt hwy. Mae Llywodraeth y DU wedi cynnal trafodaethau cadarnhaol a defnyddiol gyda Llywodraeth Cymru ar ganfyddiadau'r Comisiwn, a bydd yn parhau i weithio gyda Gweinidogion Cymru a'u swyddogion yn ystod y gwaith o gyflwyno'r diwygiadau.

2.30 Mae'r newidiadau hyn yn darparu sail gadarn i'r llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru i fod yn fwy atebol yn ariannol, a byddant yn galluogi i Lywodraeth Cymru fuddsoddi i ddatblygu'r seilwaith mewn ardaloedd sydd wedi cael eu datganoli yng Nghymru a chefnogi twf yn economi Cymru.

A Ymateb i bob argymhelliad

A.1 Mae'r atodiad hwn yn cynnwys pob un o argymhellion y Comisiwn ac ymateb Llywodraeth y DU iddynt.

Egwyddorion datganoli cyllidol

A1 Nid yw'r trefniadau ariannu presennol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn cwrdd ag anghenion democratiaeth aeddfed ac maent yn anarferol yn y cyd-destun rhyngwladol. Y model ariannu lle y mae grant bloc a rhai trethi datganoledig yw'r un gorau i wireddu egwyddorion da ar gyfer ariannu Llywodraeth Cymru. Felly rydym yn argymhell bod rhan o'r gyllideb i Lywodraeth Cymru yn cael ei hariannu o drethi datganoledig sydd o dan ei rheolaeth.

Mae Llywodraeth y DU yn cytuno mai model ariannu sy'n cynnwys grant bloc a rhai trethi datganoledig fydd y model mwyaf effeithiol i roi pwerau ychwanegol i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru, a'u gwneud yn fwy atebol i bobl Cymru.

Trethi llai o ran refeniw

A2 Bod ardrethi busnes yn cael eu datganoli'n llwyr, ar yr amod bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno ar y manylion ac yn asesu unrhyw risgiau cysylltiedig.

Mae Llywodraeth y DU yn derbyn argymhelliad y Comisiwn y byddai datganoli ardrethi busnes yn llwyr yn gyson â chynyddu atebolrwydd Llywodraeth Cymru. Roedd y Comisiwn yn datgan, er bod y cyfrifoldeb deddfwriaethol dros ardrethi busnes eisoes wedi'u datganoli'n llwyr (yn cynnwys pennu ardrethi), nid yw'r refeniw sy'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd yn cael unrhyw effaith ar yr adnoddau cyffredinol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.¹ Byddai datganoli llwyr yn golygu y byddai cyswllt agosach rhwng y refeniw o'r ardrethi busnes sydd ar gael i Lywodraeth Cymru a pherfformiad economi Cymru.

A3 Bod Treth Tir y Doll Stamp yn cael ei datganoli i Lywodraeth Cymru a bod Gweinidogion Cymru yn cael rheolaeth dros bob agwedd ar y dreth yng Nghymru. Dylid didynnu rhan benodedig o'r grant bloc yn unol â chytundeb ar ei gwerth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar ôl rhoi ystyriaeth ddyladwy i natur gyfnewidiol y derbyniadau.

Yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod yr haf, mae Llywodraeth y DU yn derbyn argymhelliad y Comisiwn y dylid datganoli treth tir y dreth stamp gyda didyniad cyfatebol i'r grant bloc, y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

A4 Bod treth tirlenwi yn cael ei datganoli i Lywodraeth Cymru a bod Gweinidogion Cymru yn cael rheolaeth dros bob agwedd ar y dreth yng Nghymru. Dylid didynnu rhan benodedig o'r grant bloc yn unol â chytundeb ar ei gwerth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar ôl rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r gostyngiad yn y sylfaen drethadwy.

Mae Llywodraeth y DU yn derbyn argymhelliad y Comisiwn y dylid datganoli'r dreth tirlenwi gyda didyniad cyfatebol i'r grant bloc, drwy gytundeb â Llywodraeth Cymru.

¹ Mae newidiadau i gyllideb Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad ag ardrethi busnes yn cael eu pennu drwy symiau canlyniadol Batnett, drwy gymharu â'r gwariant yn Lloegr, yn hytrach nac yn ôl lefel yr ardrethi busnes sy'n cael eu casglu yng Nghymru.

A5 Yn amodol ar ganlyniad trafodaethau rhwng Llywodraeth y DU a Chomisiwn yr UE ar faterion sy'n ymwneud â chymorth gwladwriaethol, fod yr ardoll agregau yn cael ei datganoli i Lywodraeth Cymru, a bod Gweinidogion Cymru yn cael rheolaeth dros bob agwedd ar y dreth yng Nghymru. Dylid didynnu rhan benodedig o'r grant bloc yn unol â chytundeb ar ei gwerth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar ôl rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r gostyngiad yn y sylfaen drethadwy.

Mae Llywodraeth y DU yn cytuno nad yw'n briodol datganoli'r ardoll agregau, o ystyried nad yw'r materion cymorth gwladwriaethol wedi'u datrys hyd yma. Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i gadw golwg ar ddatganoli'r ardoll agregau, gyda'r bwriad o ddatganoli hyn yn y dyfodol, yn amodol ar ddatrys y materion cymorth gwladwriaethol hyn ac unrhyw ystumiadau 'traws-ffiniol' i'r farchnad.

A6 Rydym yn argymhell bod y Doll Teithwyr Awyr yn cael ei datganoli ar gyfer teithiau awyr hir uniongyrchol yn gyntaf ac yn argymhell bod Llywodraeth y DU yn cynnwys datganoli holl gyfraddau'r Doll Teithwyr Awyr i Gymru yn ei gwaith ar drethi hedfan yn y dyfodol, a ddylai gynnwys ystyriaeth i'r achos mwy cyffredinol o blaid gwahaniaethu rhanbarthol ar gyfer y Doll Teithwyr Awyr neu godi tâl am dagfeydd mewn meysydd awyr. Rydym yn argymhell bod y mater hwn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun adolygiad Davies ac unrhyw ddatblygiadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dylid didynnu rhan benodedig o'r grant bloc yn unol â chytundeb ar ei gwerth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar ôl rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r rhagolygon am referniw o'r dreth yng Nghymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU, yng Nghyllideb 2013, nad yw'n bwriadu amrywio'r Doll Teithwyr Awyr yn ôl lefelau'r tagfeydd mewn meysydd awyr. Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r argymhelliad hwn, nid yw Llywodraeth y DU yn argyhoeddedig y dylid datganoli Toll Teithwyr Awyr i Gymru. Yn arbennig, cyhoeddwyd adroddiad gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn ystod hydref 2012 a oedd yn datgan y byddai cael cyfraddau gwahanol yng Nghymru a Lloegr yn debygol o ailddosbarthu teithwyr rhwng y meysydd awyr yn hytrach na chynyddu'r galw cyffredinol yn arwyddocaol yn y DU.

A7 Nid ydym yn argymhell bod treth tanwydd yn cael ei datganoli. Rydym yn argymhell, o ystyried y profiad o'r cynllun peilot ad-daliad treth tanwydd, fod Llywodraeth y DU yn asesu'r posibilrwydd o ymestyn y cynllun i rai ardaloedd gwledig ac anghysbell yng Nghymru, ar yr amod bod yr UE yn cytuno ar hynny.

Mae Llywodraeth y DU yn derbyn argymhelliad y Comisiwn na ddylid datganoli treth tanwydd. Mae Llywodraeth y DU yn ceisio sicrhau cymeradwyaeth gan yr UE i ymestyn y cynllun peilot ad-daliad tanwydd yng nghefn gwlad, i rannau anghysbell o'r DU, sy'n arddangos nodweddion tebyg i'r ynysydd sy'n cael eu cynnwys ar hyn o bryd gan y cynllun.

A8 Rydym yn argymhell na fydd y trethi canlynol yn cael eu datganoli:

- Tollau cartref a threth ar alcohol;
- Treth Car;
- Treth ar Enillion Cyfalaf;
- Treth ar Breimiymau Yswiriant;
- Toll stamp ar gyfranddaliadau;
- Treth Etifeddiant;
- Trethi ar fetio a hapchwarae; ac
- Ardoll Newid yn yr Hinsawdd.

Mae Llywodraeth y DU yn derbyn argymhelliad y Comisiwn na ddylid datganoli'r trethi hyn.

A9 Rydym yn argymell y bydd Llywodraeth y DU, wrth ystyried cyflwyno trethi newydd mewn meysydd polisi sydd wedi'u datganoli, yn rhagdybio o blaid datganoli pwerau dros y dreth i Llywodraeth Cymru.

Bydd Llywodraeth y DU yn rhoi ystyriaeth ofalus i rinweddau datganoli unrhyw drethi newydd ar sail achosion unigol, mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru pan fydd hynny'n bosibl.

A10 Lle nad yw trethi a gostyngiadau i'r DU gyfan wedi'u datganoli, rydym yn argymell:

A10a. bod Llywodraeth y DU yn cadw sylw ar y cyfle i gyflwyno gostyngiadau treth a fyddai'n helpu i hybu economi Cymru mewn ffordd gost-effeithiol a fforddiadwy o dan gyfyngiadau'r UE ar gymorth gwladwriaethol; ac

A10b. os bydd Llywodraeth y DU yn newid y trothwyon a lwfansau neu gyfraddau ar gyfer treth sydd heb ei datganoli, sy'n cynnwys elfen o dargedu daearyddol (er enghraifft, lwfansau cyfalaf mewn Ardaloedd Menter mewn ardaloedd penodol), fod asesiad yn cael ei wneud drwy ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylai Llywodraeth Cymru allu ariannu darpariaeth ychwanegol..

Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i nodi cyfleoedd i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i economi Cymru.

A11 Bod pŵer yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu gyda chytundeb Llywodraeth y DU ym mhob achos i gyflwyno trethi penodedig ac unrhyw gredydau treth cysylltiedig yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru gadw'r referniw o drethi o'r rhain heb ddiwynnu rhan o'r grant bloc. Dylai Llywodraeth y DU fod yn hyblyg wrth ddelio ag unrhyw gais am y trethi hyn oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth y DU yn derbyn argymhelliad y Comisiwn y dylid rhoi pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu i gyflwyno trethi newydd a chredydau treth cysylltiedig yng Nghymru, gyda chytundeb Llywodraeth y DU ym mhob achos. Disgwylir i'r effaith ar y grant bloc fod yn gyfyngedig i gyflwyno egwyddor 'dim newid'. Byddai'r egwyddor hon yn golygu y byddai Llywodraeth y DU ond yn cyflwyno addasiad i'r grant bloc os bydd disgwyl i dreth newydd yng Nghymru leihau referniw i'r Trysorlys.

Trethi uwch o ran referniw

A12 Nid ydym yn argymell datganoli treth gorfforaeth i Gymru. Fodd bynnag, pe byddai Llywodraeth y DU yn cytuno i ddatganoli treth gorfforaeth i'r Alban ac i Ogledd Iwerddon, rydym yn argymell bod yr un pwerau'n cael eu rhoi i Gymru.

Mae Llywodraeth y DU yn derbyn argymhelliad y Comisiwn na ddylid datganoli treth gorfforaeth i Gymru.

A13 Rydym yn argymell creu modd i gynnig y lwfansau cyfalaf uwch mewn mwy o ardaloedd menter yng Nghymru yn unol â rheolau ar gymorth gwladwriaethol ac ar yr amod bod Llywodraeth Cymru yn talu'r gost gynyddrannol.

Mae Llywodraeth y DU yn derbyn argymhelliad y Comisiwn y gall Llywodraeth Cymru ariannu lwfansau cyfalaf uwch mewn mwy o ardaloedd Menter yng Nghymru, sy'n cydymffurfio â'r meini prawf sefydledig, yn amodol ar y rheolau ar gymorth gwladwriaethol a'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r cynllun.

A14 Mae amrywio cyfraddau TAW o fewn aelod-wladwriaeth wedi'i wahardd gan gyfraith yr UE. Felly nid oes dewis gennym ond diystyru datganoli TAW, er ein bod yn cydnabod bod dadleuon eraill hefyd yn erbyn datganoli TAW. Gellid ystyried bod y gallu i wneud

addasiadau mewn cyllidebau datganoledig nad oeddent yn ganlyniad i weithredoedd Llywodraeth Cymru yn mynd yn groes i'r amcan o wella atebolrwydd. Oherwydd hyn, nid ydym yn argymhell aseinio derbyniadau TAW.

Mae Llywodraeth y DU yn derbyn yr argymhelliad na ddylid datganoli nac aseinio TAW i Gymru.

A15 Nid ydym yn argymhell bod Cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn cael eu datganoli ar eu ffurf bresennol. Mae cyswllt hanfodol rhwng cyfraniadau a'r Gronfa Yswiriant Gwladol sy'n ariannu budd-daliadau nawdd cymdeithasol. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth y DU yn rhoi ystyriaeth bellach i addasiadau sy'n gwahaniaethu'n rhanbarthol, fel gwyliau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol i gyflogwyr, er mwyn hybu'r farchnad lafur yn unol â'r rheolau ar gymorth gwladwriaethol. Dylai Llywodraeth Cymru allu ariannu addasiadau ychwanegol o'r fath sy'n gwahaniaethu'n ddaearyddol yng Nghymru os ydynt yn gyson ag ymrwymïadau i'r UE a system nawdd cymdeithasol y Deyrnas Unedig.

Mae Llywodraeth y DU yn derbyn argymhelliad y Comisiwn na ddylid datganoli Cyfraniadau Yswiriant Gwladol i Gymru ac y dylid parhau i weithio gyda'r Llywodraeth Cymru i nodi cyfleoedd i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i'r economi yng Nghymru.

A16 Rydym yn argymhell bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn rhannu'r refeniw o dreth incwm. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am osod cyfraddau treth incwm yng Nghymru ac rydym yn argymhell y pecyn canlynol:

A16a. na fydd treth incwm ar gynilion a dosbarthiadau'n cael ei datganoli i Lywodraeth Cymru;

A16b. y bydd cyfraddau treth incwm newydd i Gymru, a gaiff eu casglu gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, a fydd yn gymwys i'r cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol o dreth incwm;

A16c. y bydd y cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol o dreth incwm a godir gan Lywodraeth y DU yng Nghymru yn cael eu gostwng 10 ceiniog yn y bunt ar y dechrau. Ymhen amser gallai cyfran Llywodraeth Cymru gynyddu os bydd consensws gwleidyddol;

A16d. y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu amrywio'r cyfraddau treth sylfaenol, uwch ac ychwanegol ar wahân i'w gilydd;

A16e. na fydd Llywodraeth Cymru yn cael ei chyfyngu wrth osod cyfraddau ar ben y cyfraddau is ar gyfer y DU;

A16f. y bydd y mecanwaith ar gyfer addasu'r grant bloc yn cael ei seilio ar y dull didynnu wedi'i fynegrifo sydd wedi'u hargymhell gan Gomisiwn Holtham, ac sy'n cael eu rhoi ar waith yn yr Alban, sy'n cynnwys egwyddor 'dim newid' yn awtomatig; ac

A16g. y bydd trefniadau pontio ar ôl cyflwyno datganoli ar dreth incwm, yn benodol er mwyn helpu i reoli'r broses o drosglwyddo risg.

Mae Llywodraeth y DU yn derbyn argymhelliad y Comisiwn y byddai rhannu'r sail treth incwm yn cynyddu atebolrwydd Llywodraeth Cymru yn sylweddol. Mae cynigion Llywodraeth y DU i ddatganoli pwerau treth incwm (a gyflwynir ym Mhennod 2) yn adlewyrchu nifer o argymhellion manwl y Comisiwn, ond na fyddai'n caniatáu i gyfraddau treth bob band gael eu hamrywio'n annibynnol, o ystyried effaith bosibl hyn ar gynnydd y system dreth a refeniw treth ar draws y DU gyfan.

A17 Rydym yn argymhell bod y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cynhyrchu rhagolygon treth incwm i Gymru mewn ffordd debyg i'r Alban a bod y symiau a ragwelir yn cael eu

haseinio i Lywodraeth Cymru cyn cyflwyno deddfwriaeth, heb gael unrhyw effaith ar bŵer gwario Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno cais ffurfiol i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i gynhyrchu rhagolygon o'r holl drethi sy'n cael eu datganoli i Gynulliad Cymru (fel y mae'n gwneud ar hyn o bryd i Senedd yr Alban).

A18 Rydym yn argymhell y bydd y trosglwyddo ar bwerau dros dreth incwm i Lywodraeth Cymru yn amodol ar ddatrys mater ariannu teg mewn ffordd y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno arni.

2.31 *Roedd cyd-ddatganiad² Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2012 yn sefydlu proses i adolygu lefelau cymharol o gyllid i Gymru a Lloegr cyn pob adolygiad o wariant ac, os rhagwelir y bydd cydgyfeirio yn parhau, y dylid trafod yr opsiynau i fynd i'r afael â'r mater mewn ffordd deg a fforddiadwy. Mae'r trefniadau cadarn hyn ar gyfer monitro lefelau ariannu yn darparu sail gadarn ar gyfer datganoli treth incwm (yn amodol ar ganlyniadau refferendwm).*

Benthyca

A19 Rydym yn argymhell bod pŵer ychwanegol yn cael ei roi i Weinidogion Cymru i fenthyca er mwyn buddsoddi cyfalaf uwchlaw'r Terfyn Gwariant Adrannol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Dylid cael terfyn cyffredinol ar fenthyca o'r fath, a fydd yn gymesur o leiaf â'r hyn sydd yn yr Alban, gan gofio bod Cymru'n gymharol rydd oddi wrth effaith mentrau cyllid preifat. Bydd y proffil blynyddol y cytunir arno'n rhoi rhywfaint o hyblygrwydd ac yn cael ei adolygu ym mhob adolygiad o wariant. Dylid benthyca o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol ac o ffynonellau masnachol. Rydym hefyd yn credu y dylai Llywodraeth Cymru allu dyroddi ei bondiau ei hun.

Roedd Llywodraeth y DU wedi cytuno mewn egwyddor i bwerau benthyca cyfalaf i Lywodraeth Cymru sy'n gymesur â'i refeniw annibynnol. Mae cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer hyn wedi'u cyflwyno yn y bennod flaenorol ac maent wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd i fenthyca o'r Gronfa Benthyciadau Genedlaethol a ffynonellau masnachol.

A20 Rydym yn argymhell bod pwerau newydd i Weinidogion Cymru i fenthyca at ddibenion tymor byr yn cael eu cyflwyno i reoli llif arian parod a delio â derbyniadau trethi cyfnewidiol pan fydd trethi wedi eu datganoli, yn debyg i'r rheini yn Neddf yr Alban 2012.

Mae Llywodraeth y DU yn derbyn argymhelliad y Comisiwn y byddai angen darpariaethau ychwanegol i reoli pwerau treth newydd ac mae wedi cyflwyno cynlluniau yn y bennod flaenorol.

A21 Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio i hyrwyddo buddsoddi ychwanegol yng Nghymru drwy'r gwahanol fathau o fecanweithiau ariannu sydd ar gael.

Mae Llywodraeth y DU yn cefnogi argymhelliad y Comisiwn a bydd yn parhau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo buddsoddi ychwanegol yng Nghymru.

Gwella atebolrwydd ariannol ymhellach

A22 Mae cyfle i drefnu bod mwy o wybodaeth ar gael i sicrhau mwy o atebolrwydd ariannol, dealltwriaeth gyhoeddus a thryloywder, ac rydym yn argymhell y canlynol, yn amodol ar asesiad manwl o'r costau a buddion sy'n gysylltiedig gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel y bo'n briodol:

² http://www.hm-treasury.gov.uk/d/joint_statement_on_funding_reform_english_23-10-12.pdf

A22a. bod trefniadau'n cael eu gwneud i ddarparu amcangyfrifon o'r gwariant yn Lloegr ar wasanaethau sydd wedi'u datganoli yn achos Cymru i gyfrannu at y ddadl ar gyllid cyhoeddus yng Nghymru;

A22b. bod ystyriaeth ynghylch a ddylid cynnwys haen 'is-genedlaethol' o wariant llywodraeth yng nghyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y Deyrnas Unedig;

A22c. bod ffigurau'n cael eu cynhyrchu ar faint y dreth a gaiff ei gasglu yng Nghymru. Dylai'r ffigurau hyn gynnwys amcangyfrifon hefyd o gydbwysedd cyllidol Cymru. Dylid dadansoddi'r ffigurau ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'n gyson ar draws y Deyrnas Unedig;

A22d. rydym yn annog Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i gyhoeddi ystadegau cymharol allweddol mewn meysydd sydd wedi'u datganoli a rhai sydd heb eu datganoli bob blwyddyn; a

A22e. bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a ellid cyhoeddi mwy o wybodaeth am yr economi yng Nghymru gan gynnwys gwybodaeth am Werth Ychwanegol Crynswth Cymru neu fesurau incwm eraill, yn ogystal â gwybodaeth am ragolygon economaidd.

Mae Llywodraeth y DU yn cymeradwyo argymhelliad y Comisiwn ac, yn unol â'i rhaglen ar dryloywder, mae'n ymrwymedig i wella'r wybodaeth a roddir i wella dealltwriaeth y cyhoedd a chynyddu atebolrwydd. Yn benodol:

- *mae'r Datganiad Polisi Ariannu, sydd eisoes yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth ar wariant cymharol yn Lloegr, yn cael ei adolygu'n rheolaidd;*
- *mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ystyried datblygu cyfrifon is-genedlaethol fel rhan o'r gwaith o gyflwyno System Cyfrifon Ewrop 2010, ac mae hefyd yn cymharu ystadegau swyddogol sy'n cael eu cynhyrchu yn y DU; a*
- *Mae Cyllid a Thollau El Mawrhydi yn ceisio gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar referniw treth y DU yn barhaus, ac mae wedi cyhoeddi datganiad arbrofol ar ystadegau sy'n dadgyfuno referniw treth y DU i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.*

A23 Bod y newidiadau sefydliadol canlynol yn cael eu gwneud er mwyn gwella atebolrwydd ariannol:

A23a. ystyried ehangu rôl y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol neu gorff arall i gynnwys un ai cynhyrchu neu ddilysu gwybodaeth am gyllid cyhoeddus ac economïau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon; ac adolygu ac archwilio agweddau technegol ar y system ariannu ddatganoledig os yw'n briodol;

A23b. bod newidiadau yn y Datganiad Polisi Ariannu yn cael eu gwneud drwy gytundeb rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig lle bynnag y bo modd a'u bod yn cael eu cofnodi mewn modd tryloyw;

A23c. bod cyfarfodydd presennol y gweinidogion cyllid yn cael eu ffurfioli;

A23d. bod y trefniant presennol lle y mae Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi dod i gyfarfodydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol i ateb cwestiynau am Gyllideb y DU yn cael ei ffurfioli;

A23e. trefnu i fwy o wybodaeth fod ar gael am y trefniadau craffu ac atebolrwydd presennol ar gyfer gwariant cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod pwysigrwydd trefniadau sefydliadol cadarn sy'n adlewyrchu'r pwerau cyllidol ychwanegol sy'n cael eu datganoli i Lywodraeth Cymru. Mae

cynlluniau'r Llywodraeth i atgyfnerthu'r trefniadau presennol wedi'u cyflwyno yn y bennod flaenorol.

A24 Y dylid caniatáu i Lywodraeth Cymru symud gwariant o wariant cyfalaf i wariant adnoddau yn unol â thelerau concordat y cytunir arno â Thrysorlys EM, gan ystyried hanes blaenorol Llywodraeth Cymru o ran rheoli cyllidebau ac ar yr amod na fydd hynny'n peryglu targedau cyllidol Llywodraeth y DU.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gallu symud gwariant o wariant cyfalaf i wariant adnoddau yn ôl achosion unigol, yn amodol ar gytundeb y Trysorlys.

A25 Bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a gweinyddiaethau datganoledig eraill yn adolygu eu profiad o'r cynllun cyfnewid cyllidebol datganoledig yn yr adolygiad nesaf o wariant ac yn cytuno ar hyblygrwydd priodol ar yr amod na fydd hynny'n peryglu targedau cyllidol Llywodraeth y DU.

Mae Llywodraeth y DU yn cefnogi'r egwyddor o adolygu'r holl drefniadau cyllidol yn rheolaidd, yn cynnwys yr hyblygrwydd sydd ar gael o dan y trefniadau cyfnewid cyllidebol.

Gweithredu

A26 Y bydd refferendwm yng Nghymru ar ddatganoli treth incwm. Dylid cynnwys darpariaeth ar gyfer refferendwm o'r fath yn y Ddeddf sy'n cyflwyno pwerau trethu a benthycu.

Mae Llywodraeth y DU yn derbyn argymhelliad y Comisiwn y dylai datganoli treth incwm fod yn destun refferendwm yng Nghymru, ac y dylid cynnwys darpariaeth ar gyfer refferendwm yn y ddeddfwriaeth sy'n datganoli pwerau trethu a benthycu i Gynulliad Cymru.

A27 Bod Mesur Cymru newydd yn cael ei gyflwyno yn y Senedd hon i ddatganoli pwerau trethu a benthycu. Ni ddylid aros nes bod Rhan II ein gwaith wedi'i chwblhau cyn cyflwyno mesur i ddatganoli pwerau trethu a benthycu. Dylid cyflwyno newidiadau nad oes angen deddfwriaeth ar eu cyfer cyn gynted â phosibl.

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyhoeddi Mesur Cymru drafft er mwyn craffu cyn cyflwyno deddfwriaeth yn sesiwn presennol y Senedd hon, sy'n cynnwys darpariaethau i ddatganoli pwerau trethu a benthycu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dechrau cyflwyno newidiadau nad ydynt yn galw am deddfwriaeth.

A28 Bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu Trysorlys Cymru i reoli'r pwerau newydd yr ydym yn eu hargymhell.

Mae hyn yn fater i Lywodraeth Cymru.

A29 Bydd y system ariannu newydd yn galw am gryfhau'r trefniadau sefydliadol er mwyn delio â chyllid:

A29a dylid sefydlu Pwyllgor Dwyochrog Rhynglywodraethol ar y cyd ar Ddatganoli Cyllidol i Gymru a fydd yn cwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn ar ôl cyhoeddi rhagolygon chwe-misol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i drafod trethiant a pholisi macro-economaidd;

A29b dylid pennu'r berthynas rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yr Adran Gwaith a Phensiynau, a Llywodraeth Cymru ar dreth incwm mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, a gaiff ei gyhoeddi cyn gweithredu'r argymhellion;

A29c ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, dylai llinellau atebolrwydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi o ran y gyfradd treth incwm i Gymru fod yn debyg i'r rheini rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Senedd a Llywodraeth y DU.

Dylai Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yng Nghyllid a Thollau Ei Mawrhydi fod yn benodol atebol am gasglu'r gyfradd treth incwm i Gymru;

A29d dylai Mesur Cymru alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddigolledu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi am y costau ychwanegol net sy'n gysylltiedig â gweithredu a chynnal y gyfradd treth incwm i Gymru. Ar gyfer y trethi a gaiff eu datganoli'n llwyr (Treth Tir y Doll Stamp a Threth Tirlenwi) ac unrhyw drethi newydd, bydd angen i'r Cynulliad gytuno ar drefniadau ffurfiol, er enghraifft, contract neu gytundeb lefel gwasanaeth ategol â'r corff y mae'n dymuno iddo weinyddu'r trethi;

A29e lle y byddai cyfradd dreth amrywiol yn gallu arwain at gynnydd neu ostyngiad yn rhwymedigaethau Llywodraeth y DU, dylid glynu wrth yr egwyddor yn y Datganiad Polisi Ariannu y bydd y corff y mae ei benderfyniad yn arwain at y gost ychwanegol yn cwrdd â'r gost honno;

A29f dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod system ariannu Cymru mor dryloyw â phosibl a bod yr elfennau allweddol yn cael eu gwirio'n annibynnol neu eu bod yn dibynnu ar ffynonellau annibynnol. Dylai'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fod yn gyfrifol am gynhyrchu rhagolygon o dderbyniadau trethi Cymru, wedi'u seilio ar ddata a fydd yn cynnwys gwybodaeth wedi'i darparu gan Lywodraeth Cymru. Dylid cyhoeddi memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Thrysorlys EM yn y cyfnod cyn gweithredu'r argymhellion yn ogystal â manylion ychwanegol am fethodoleg y rhagolygon. Dylid cymhwyso egwyddor 'dim newid' yn yr un modd ag yn yr Alban;

A29g dylai Llywodraeth y DU wahodd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn rhinwedd ei swydd yn bennaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i baratoi adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am weinyddu'r gyfradd treth incwm i Gymru gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu cysylltu â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch gweinyddu'r trethi llai, a bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cytuno i wneud, mater i Lywodraeth Cymru fydd penderfynu sut y bydd unrhyw drefniant archwilio'n gweithio.

Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod pwysigrwydd trefniadau sefydliadol cadarn sy'n adlewyrchu'r pwerau cyllidol ychwanegol a fydd yn cael eu datganoli i Lywodraeth Cymru. Bydd costau ychwanegol a dynnir wrth weithredu a gweinyddu'r pwerau datganoledig newydd yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y Datganiad o Bolisi Ariannu. Mae cynlluniau Llywodraeth y DU i atgyfnerthu'r trefniadau presennol wedi'u cyflwyno yn y bennod flaenorol.

A30 Bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio'n agos i ddefnyddio pwerau economaidd sydd wedi'u datganoli a rhai sydd heb eu datganoli i gryfhau sylfaen drethi Cymru.

Mae Llywodraeth y DU yn cytuno'n gryf y dylid parhau i gydweithio'n agos er mwyn atgyfnerthu economi a sail treth Cymru.

A31 Y bydd y newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno fesul cam er mwyn rheoli risgiau o ran ansefydlogrwydd mewn cyllid cyhoeddus ac enillion annisgwyl neu ergydion niweidiol i Gyllideb Cymru.

Mae Llywodraeth y DU yn cytuno mai cyflwyno fesul cam yw'r dull gorau o wneud hyn.

A32 Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael rheolaeth ddeddfwriaethol dros ei weithdrefnau cyllidebol ei hun.

*Mae Comisiwn Silk yn archwilio pwerau deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan ail ran ei gylch gwaith. Nododd Llywodraeth y DU yn ei thystiolaeth i'r Comisiwn y gallai fod achos i addasu'r ffin datganoli mewn cysylltiad â gweithdrefnau cyllidebol y Cynulliad.*³

A33 Y gallai Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol weld bod angen meithrin gallu ychwanegol yn gymedrol ar gyfer craffu ariannol.

Mae hyn yn fater i Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol.

³ Cafodd y mater hwn ei drafod hefyd yn adrannau 1.29 i 1.31 tystiolaeth Llywodraeth y DU i waith Rhan II Comisiwn Silk, sydd ar gael yn <https://www.gov.uk/government/news/uk-government-publishes-its-evidence-to-the-silk-commission>.

B

Ymgynghoriad Treth Tir y Dreth Stamp – crynodeb o'r ymatebion

B.1 Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar fusnesau ac roedd yn gofyn pedwar cwestiwn er mwyn canfod beth fyddai effeithiau posibl datganoli Treth Tir y Dreth Stamp i Gynulliad Cymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am chwe wythnos rhwng 30 Gorffennaf a 10 Medi.

B.2 Derbyniwyd 40 ymateb gan gynnwys ymatebion gan gyrff proffesiynol, cyrff cynrychioliadol, datblygwyr tai, syrfewyr siartredig ac unigolion. Roedd 15 o'r ymatebwyr o blaid ac nid oedd 10 ohonynt yn cefnogi datganoli. Roedd yr 15 ymatebwyr arall yn niwtral ac nid oeddent wedi mynegi barn o blaid nac yn erbyn datganoli Treth Tir y Dreth Stamp.

B.3 O'r rhai a oedd yn erbyn datganoli, y prif reswm am hyn oedd eu bod yn ofni y byddai trethi'n codi neu am eu bod yn gweld buddiannau un system dreth unedig. Y rhesymau a roddwyd gan y rhai a oedd o blaid datganoli oedd bod gan y farchnad dai yng Nghymru nodweddion arbennig, ac oherwydd hyn, y byddai hyn yn cydweddu â meysydd polisi presennol tai a datblygiad economaidd, sydd eisoes wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru neu roedd eu cefnogaeth yn ddibynnol ar ddiwygiadau yr oeddent yn awyddus i'w gweld.

B.4 Dywedodd nifer o'r ymatebwyr ei bod yn anodd rhoi barn bendant ar beth fyddai effaith datganoli am nad oedd sicrwydd beth fyddai Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'r pŵer. Awgrymodd eraill yr opsiynau polisi y dylai Llywodraeth Cymru eu mabwysiadu pe byddai Treth Tir y Dreth Stamp yn cael ei datganoli. Bydd y grynoded hon yn canolbwyntio ar yr ymatebion o sylwedd a roddwyd i bob cwestiwn.

C1: Pa mor sylweddol fyddai'r effeithiau cadarnhaol neu negyddol posibl ar y diwydiant adeiladu a'r farchnad dai?

B.5 Dywedodd rhai o'r ymatebwyr bod gwahaniaethau eisoes yn bodoli rhwng y farchnad dai yng Nghymru a'r un yn Lloegr, gyda'r farchnad yn Lloegr yn fwy llewyrchus. Dywedodd un datblygwr eiddo eu bod yn gweld gwahaniaeth economaidd a symudiad sylweddol o ddarpar brynwyr o Gymru i Loegr, oherwydd bod y cymhellion sy'n cael eu cynnig ar eiddo yn Lloegr yn cynnig cyfleoedd gwell.

B.6 Un enghraifft o hyn yw'r cynllun Help to Buy, nad yw ar gael yng Nghymru (er y gallai Llywodraeth Cymru ei gyflwyno os bydd yn dewis ariannu cynllun o'r fath). Roedd un cangen cwmni adeiladu mawr y DU yn ne Cymru yn cydnabod eu bod wedi dechrau prynu tir yn Lloegr er mwyn manteisio ar fuddiannau'r cynllun.

B.7 Yng ngoleuni hyn, dywedodd nifer o'r bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn eu bod yn credu y gallai rheoli Treth Tir y Dreth Stamp (TTDS) roi cymorth ychwanegol i helpu adeiladwyr tai yng Nghymru nad ydynt wedi elwa ar y cynlluniau hyn. Er bod rhai o'r ymatebwyr o'r farn y gallai anghysondebau pellach gyda'r system yn Lloegr gynyddu'r gwahaniaethau, ac y byddai hyn yn annog pobl i beidio chwilio am eiddo i'w brynu yng Nghymru.

B.8 Dywedodd ymatebwyr eraill y gallai nifer o fanteision cadarnhaol ddeillio o ddatganoli TTDS i Gymru, yn arbennig er mwyn rhoi hwb i'r farchnad adeiladu tai a helpu pobl i gael cam i fyny i'r farchnad dai. Er enghraifft, dywedodd un corff cynrychioliadol y "gallai gostwng y cyfraddau yn y bandiau treth isaf ysgogi mwy o bobl i ymuno â'r farchnad dai, yn ogystal â

helpu pobl i symud i fyny'r farchnad dai. Gallai hyn yn ei dro gynyddu nifer y tai sy'n cael eu hadeiladu, oherwydd byddai mwy o bobl yn cael eu cymell i brynu tŷ newydd”.

B.9 Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r gallu i addasu'r TTDS ar gyfer y farchnad yng Nghymru yn ddull ychwanegol a defnyddiol o hybu twf yng Nghymru, o'i ddefnyddio mewn ffordd briodol. Fodd bynnag, nodwyd mai un elfen oedd y TTDS yn y ffactorau niferus sy'n dylanwadu ar y farchnad dai yng Nghymru, a bod “cynllunio, rheoliadau adeiladu, ardrethi busnes a'r dreth gyngor yn cael llawer mwy o ddylanwad ar gyflwr y farchnad.”

B.10 Ategwyd y pwynt hwn gydag un corff proffesiynol yn datgan, “ni fyddai TTDS yn ddylanwad allweddol fel arfer ar y broses o wneud penderfyniadau, oni bai ar gyfer eiddo sydd wedi'u prasio uwchlaw trothwy penodol.” Yn ogystal â threthi eiddo eraill, ystyriwyd bod cyfleodd cyflogaeth, lleoliad yr eiddo a'r amwynderau lleol yn ffactorau pwysicach.

C2: Beth fyddai'r effaith debygol ar benderfyniadau ynghylch lleoli busnes a buddsoddiadau a allai ddeillio o gael gwahanol systemau treth trafodion eiddo yng Nghymru a Lloegr?

B.11 Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y byddai datganoli TTDS yn cael effaith gadarnhaol ar economi Cymru, a bod cyfleoedd i ddefnyddio hyn i annog pobl o'r tu allan i Gymru i fuddsoddi. Roeddent yn credu y gallai'r pŵer hwn ddarparu 'dull i Lywodraeth Cymru helpu i wneud Cymru yn lle deniadol i fuddsoddi, wrth alinio hyn yn agos â meysydd eraill sydd wedi'u datganoli.”

B.12 Fodd bynnag, roedd y mwyafrif helaeth o'r bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn pwysleisio mai dim ond ffactor bychan iawn oedd y TTDS mewn penderfyniadau a wneir ar leoliadau busnes. Roedd ffactorau eraill megis gweithlu crefftus a phrisiau eiddo yn llawer pwysicach, a byddai'r TTDS ond yn cael ei ystyried fel mater ymylol.

B.13 Dywedodd un ymatebwr bod prisiau eiddo yn sylweddol is yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU, hyd yn oed ar y gororau, a bod hynny'n fwy tebygol o ddylanwadu ar benderfyniadau i brynu eiddo na TTDS neu'r tal cyfatebol yng Nghymru.

B.14 Roedd nifer fach o'r ymatebwyr o'r farn y byddai datganoli yn cael effaith negyddol ar benderfyniadau ar brynu eiddo. Roeddent yn credu y byddai'r ansicrwydd ynglŷn â dyfodol TTS yn cael ei ystyried mewn penderfyniadau buddsoddi ac yn creu mwy o bwyll. Roedd angen sicrwydd ar fuddsoddwyr o dramor a gwybodaeth gynhwysfawr am oblygiadau eu penderfyniadau ar drethi.

C3: Pa mor sylweddol fyddai'r beichiau gweinyddol posibl pe bai gwahanol systemau trafodion eiddo ac awdurdodau casglu yng Nghymru a Lloegr?

B.15 Nid oedd nifer o'r ymatebwyr yn credu y byddai cyflwyno treth trafodion newydd i Gymru yn creu beichiau gweinyddol neu gostau arwyddocaol. Roeddent yn credu mai'r dreth hon fyddai un o'r rhai hawsaf i'w casglu, ac na fyddai datganoli yn dwysáu llawer ar y beichiau a'r costau presennol. Dywedodd eraill y byddai angen rhywfaint o hyfforddiant ar bobl er mwyn addasu i'r system newydd, ond y byddai busnesau yn gallu ymgorffori'r costau hynny'n rhwydd.

B.16 Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod TTDS yn dreth ar eiddo sefydlog, ac mai dim ond mân broblemau gweinyddol a fyddai'n codi ac y gallai proffesiwn y gyfraith ddelio â hwy'n rhwydd. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr, yn arbennig gweithwyr proffesiynol treth a'r gyfraith, yn credu na fyddai addasu i ddatganoli mor syml â hynny.

B.17 Soniodd un ymatebwr am arbenigwyr trawsgludo a oedd wedi awgrymu y gallai fod yn dreth anodd iawn i'w gweinyddu ac yn dreth eithaf costus, pe byddai'r system dreth yn wahanol iawn yng Nghymru a Lloegr. Roeddent yn awgrymu y gallai hyn greu problemau mawr i'r gymuned fusnes.

B.18 Roedd ymatebwyr eraill yn pryderu am y problemau ychwanegol a fyddai'n cael eu creu gan eiddo sy'n pontio'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Nododd un ymatebwr bod posibilrwydd bod cannoedd o ffermydd yn pontio'r ffin a dywedodd un arall bod yna 81 eiddo sydd eisoes yn pontio'r ffin. Byddai angen system ddosrannu yn yr achosion hyn, ac y byddai hyn yn ychwanegu at natur gymhleth unrhyw system newydd.

B.19 Roedd nifer o'r ymatebwyr eraill wedi mynegi pryder ynglŷn â chreu gwasanaeth Refeniw newydd i Gymru, er mwyn gweinyddu'r dreth. Roeddent yn gweld manteision amlwg gweithredu drwy un asiantaeth yn hytrach na chreu un newydd. Roedd ymatebwyr eraill yn cwestiynu'r angen i sefydlu awdurdod casglu gwahanol, yn arbennig o ystyried y swm cymharol fach sy'n cael ei gasglu gan TTDS yng Nghymru, o gymharu â Chymru a Lloegr gyda'i gilydd (cyfanswm o tua 20%). Rhybuddiodd un ymatebwr, "y gallai cyfran fawr o TTDS "Cymru" gael ei hamsugno gan y costau gweinyddol o ddyblygu systemau presennol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi."

B.20 Byddai graddau'r anawsterau yn dibynnu ar pa mor wahanol fyddai unrhyw system newydd i'r system sy'n bodoli yn Lloegr. Er enghraifft, dywedodd un ymatebwr, pe byddai cyfradd dreth wahanol yn cael ei chodi ar ail gartrefi, y byddai hyn yn debygol o greu costau ychwanegol sylweddol wrth geisio penderfynu a yw'r ail eiddo yn ail gartref ai peidio. Dywedodd ymatebwr arall y byddai'r anawsterau cyffredinol o fynd i'r afael ag achosion o osgoi TTDS yn golygu y byddai gweinyddu dwy system wahanol yn fwy anos a chostus na'r hyn y mae pobl yn ei sylweddoli.

B.21 Dywedodd un ymatebwr arall bod y DU yn safle 73 yn y byd yn nhermau pa mor rhwydd yw cofrestru eiddo (o gymharu â bod yn safle 7 yn y byd am wneud busnes). Bydd system TTDS gyfochrog ond gwahanol yn gwaethygu hyn.

C4: Pa effeithiau y byddai datganoli Treth Tir y Doll Stamp yn eu cael ar economi Cymru a Lloegr, yn enwedig yn ardaloedd y ffin, a beth fyddai hyd a lled yr effeithiau hyn?

B.22 Y farn fwyaf cyffredinol a fynegwyd gan yr ymatebwyr oedd na fyddai datganoli TTDS yn cael llawer o effaith ar economi Cymru a Lloegr. Er bod rhai yn cydnabod y byddai cysylltiad rhwng unrhyw effaith â chynnydd mewn galw (a chynnydd dilynol mewn prisiau tai) yn yr ardaloedd ar hyd y ffin yn ffafrio'r rhanbarth sydd â'r system gwerthu eiddo mwyaf ffafriol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn na fyddai effaith arwyddocaol.

B.23 Roedd ymatebwyr eraill o'r farn na fyddai datganoli TTDS i Gymru yn cael llawer o effaith ar economi Lloegr, ond y gallai gynnig cyfleoedd sylweddol i economi Cymru.

B.24 Cyfeiriodd un ymatebwr at effaith cynlluniau amrywiol yn Lloegr megis 'help to buy', sy'n ysgogi cwmnïau adeiladu o Gymru i adeiladu ar ochr arall y ffin. Gallai penderfyniadau Llywodraeth Cymru gael effaith debyg.

Casgliad

B.25 Yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu nad oes tystiolaeth gryf y byddai datganoli TTDS yn cael effaith anghymesur ar fusnesau. Felly, fel y cyhoeddwyd gan Brif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth y DU ar 1 Tachwedd, mae Llywodraeth y DU yn derbyn argymhelliad Comisiwn Silk y dylid datganoli TTDS i Gynulliad Cymru.

Rhestr o'r ymatebwyr

Cyrrff cynrychioliadol neu gyrrff cyhoeddus:

Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain – Corff cynrychioliadol

Ffederasiwn Cenedlaethol yr Adeiladwyr (Cymru) – Corff Proffesiynol

Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (Cymru) – Corff cynrychioliadol
Cymdeithas y Gyfraith – Corff Proffesiynol
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr – Corff Proffesiynol
Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi – Corff cynrychioliadol
Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr – Cymdeithas fasnach
Y Sefydliad Tai Siartredig (Cymru) – Corff Proffesiynol
Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru – Corff cynrychioliadol cymdeithasau tai
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (Cymru) – Corff Cynrychioliadol
Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil (Cymru) Cyf – Cymdeithas fasnach
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru – Corff cynrychioliadol
Sefydliad Siartredig Trethi – Corff Proffesiynol

Cwmnïau:

Paul Drew – Datblygwyr
Welsh Home Finder – Gwefan eiddo yng Nghymru
Andrew Thomas – Syrfewr Siartredig
Ireland – Owen – Syrfewyr ac Ymgynghorwyr Eiddo
Fletcher Morgan – Syrfewr Siartredig
Rawlins & Madley – Syrfewr Siartredig
Redrow Homes South Wales – Cwmni adeiladu
Robert Chapman and Company – Syrfewr Siartredig
Bellways Homes Ltd – Cwmni adeiladu
Geldards LLP – Cwmni cyfreithiol
Castle View Properties Ltd – Cwmni eiddo
Llanmoor Development Company Ltd – Cwmni eiddo
Network Rail – Perchennog y rhwydwaith rheilffyrdd
Grŵp Watkin Jones – datblygwr tai

Ymatebwyr eraill:

G4C Wales – sefydliad annibynnol sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru
Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (Cymru) – Bwrdd Hyfforddi
Prifysgol Caerdydd - Prifysgol
Llywodraeth Cymru – Llywodraeth Cymru
Swyddfa Maer Llundain – Llywodraeth Leol
Plaid Cymru – Plaid wleidyddol

Cofrestrfa Tir – Un o asiantaethau Llywodraeth y DU

Cyngor Sir Ddinbych – Cyngor Lleol

HM Treasury contacts

This document can be downloaded from
www.gov.uk

If you require this information in another
language, format or have general enquiries
about HM Treasury and its work, contact:

Correspondence Team
HM Treasury
1 Horse Guards Road
London
SW1A 2HQ

Tel: 020 7270 5000

E-mail: public.enquiries@hm-treasury.gov.uk

ISBN 978-1-909790-49-0



9 781909 790490 >